# Cofnodion wedi'u Cadarnhau

| | |
|---|---|
| Teitl y Cyfarfod: | **Cyfarfod Bwrdd CNC – Cyhoeddus**<br>**Pawb yn bresennol trwy Skype** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 26 Tachwedd 2020 |
| **Aelodau'r Bwrdd a oedd yn Bresennol:** | Syr David Henshaw, Cadeirydd<br>Clare Pillman, Prif Weithredwr<br>Yr Athro Steve Ormerod, Is-gadeirydd<br>Karen Balmer<br>Chris Blake (ddim yn bresennol ar ôl 12.15pm)<br>Catherine Brown<br>Julia Cherrett<br>Geraint Davies<br>Howard Davies<br>Dr Elizabeth Haywood<br>Zoë Henderson<br>Dr Rosie Plummer<br>Yr Athro Peter Rigby |
| **Aelodau o'r Tîm Gweithredol a oedd yn Bresennol:** | Prys Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth Gorfforaethol a Datblygu<br>Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu<br>Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid<br>Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau<br>Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol |
| **Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:** | Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethiant ac Ysgrifennydd y Bwrdd<br>Sarah Williams, Pennaeth Gweledigaeth 2050 a'r Strategaeth Gorfforaethol<br>Martyn Evans, Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru |
| **Aelodau o'r Cyhoedd a oedd yn Bresennol:** | Gareth Wardell<br>Daniel Wills - Vattenfall<br>Frank Elsworth - Vattenfall<br>Jack Hanbury – Ystâd Parc Pont-y-pŵl |
| **Datganiadau:** | Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau. |
| **Ymddiheuriadau:** | Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau. |

**Ysgrifenyddiaeth:** Natalie Williams
Rhiannon Spencer

## Eitem 1. Agor y Cyfarfod

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb. Ni wnaethpwyd rhagor o ddatganiadau.

## Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu – i gadarnhau – gofynnwyd am ddiwygiadau trwy ohebiaeth ymlaen llaw

### 2A. Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 16 Medi

2. Cytunwyd bod cofnodion y Sesiwn Gyhoeddus a gynhaliwyd ar 16 Medi yn gywir.

### 2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu Cyhoeddus

3. Adolygwyd y cofnod Gweithredu Cyhoeddus a chytunwyd ei fod yn gywir.

## Eitem 3. Busnes y Cadeirydd

4. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd a'r cyhoedd fod CNC wedi parhau i weithio'n dda er gwaethaf heriau'r flwyddyn ddiwethaf. Roedd y gwaith ar Adferiad Gwyrdd yn mynd yn ei flaen, a chyn bo hir byddai'r cynllun yn cael ei lansio'n ffurfiol ynghyd â manylion yn nodi sut y byddai'n mynd yn ei flaen i'r cam gweithredu. Roedd yr Adolygiad Llifogydd a gyhoeddwyd wedi bod yn llwyddiant, ac roedd hyn wedi paratoi'r tir ar gyfer rhagor o sgyrsiau ynglŷn â dull Cymru o ymdrin â llifogydd.

## Eitem 4 Adroddiad y Prif Weithredwr

5. Roedd Adroddiad y Prif Weithredwr yn bwrw golwg ar y flwyddyn ddiwethaf, ac yn ymwneud yn bennaf â'r llifogydd ym mis Chwefror a phandemig COVID. Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd cafwyd casgliad i'r Adolygiad Llifogydd, a gyhoeddwyd ddiwedd mis Hydref ac a oedd wedi cael ei ystyried gan aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol. Roedd wedi dechrau sgyrsiau anodd, y gobeithid y byddent yn gwneud Cymru'n fwy cydnerth yn y dyfodol, a byddai hyn yn parhau'n flaenoriaeth.

6. Roedd CNC wedi bod yn cynllunio ar gyfer y cyfnod ar ôl Brexit ac yn ymateb i faterion a allai godi pe bai'r Deyrnas Unedig yn gadael Ewrop heb gytundeb. Ym mis Mehefin roedd CNC wedi nodi bod angen bod yn barod ar gyfer gaeaf â nifer o ddigwyddiadau, ac roedd wedi cynnal ymarfer desg er mwyn ymarfer yr ymateb sylweddol y byddai ei angen pe bai'r rhain yn digwydd yr un pryd; roedd hyn wedi dylanwadu ar y prosesau yn ystod y misoedd diwethaf.

7. Roedd yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) wedi'i gyhoeddi fesul tipyn gan fod rhywfaint o'r gwaith manwl wedi'i ddal yn ôl gan COVID. Roedd CNC wedi derbyn cadarnhad gan UKWAS bod y labordy wedi cadw ei achrediad ISO17025.

8. Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr wybodaeth ddiweddaraf am y Gyllideb a Gwerthiant Pren. Nodwyd bod hon wedi bod yn gyllideb anodd eleni, ond bod CNC bellach ar y trywydd cywir i gyflawni'r targed. Byddai Cynllun Gwerthu a Marchnata

Pren newydd o fis Ebrill nesaf ymlaen. Roedd CNC wedi ymgynghori'n eang ynglŷn â'r cynllun hwn a fyddai'n cael ei rannu â'r Bwrdd ym mis Ionawr.

9. Croesawodd y Prif Weithredwr y Pennaeth Llywodraethiant ac Ysgrifennydd y Bwrdd newydd. Cyfeiriodd at ymadawiad y Pennaeth Masnachol, gan ddiolch iddi am ei gwasanaeth a dymuno'n dda iddi at y dyfodol. Roedd y gwaith o recriwtio Pennaeth Archwilio Mewnol a Phennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth wedi dechrau. Byddai adroddiad pwls yn cael ei lunio'n rheolaidd er mwyn sicrhau Llesiant, Iechyd a Diogelwch y staff, ac roedd cefnogaeth a chyngor parhaus wedi'i ddarparu.

10. Gorffennodd y Prif Weithredwr trwy ddiolch i'r Tîm Gweithredol a phob un o'r staff am eu cefnogaeth a'u gwaith gwych yn ystod blwyddyn anghyffredin ac i'r Bwrdd am gefnogi a herio.

## Eitem 5. Adroddiadau Diweddaru y Pwyllgorau

11. Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad ddiweddariad llafar yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd. Y prif faterion a drafodwyd oedd Cylch Cynllunio Busnes 2022, a'r Cynllun Busnes drafft, ac roedd gwaith wedi dechrau ar y Cylch Cynllun Corfforaethol pum mlynedd ar gyfer 2022-27 a fyddai'n seiliedig ar waith Gweledigaeth 2050. Roedd CNC yn gobeithio comisiynu grŵp gweledigaeth pobl ifanc i fwydo i mewn i'r trafodaethau cynllunio.

12. Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad at yr adolygiad o lifogydd 2020, a diolchwyd i staff CNC am eu gwaith rhagorol. Bwriad yr adolygiad oedd sicrhau bod gwaith cynllunio yn iawn yn y dyfodol a bod y cyhoedd yn cael y negeseuon iawn. Roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried a ddylid cynnal adolygiad annibynnol o ddigwyddiadau yn ystod llifogydd.

13. Materion allweddol eraill oedd rhan CNC yn y Strategaeth Genedlaethol ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Byddai angen llawer o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni amcanion y strategaeth. Roedd y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad hefyd wedi bod yn canolbwyntio ar gronfeydd dŵr, ac roedd canlyniadau ymchwiliad Toddbrook yn debygol o arwain at ddeddfwriaeth newydd.

## Eitem 6. Dangosfwrdd perfformiad y Cynllun Busnes 2020-21 – Diweddariad Ch2

14. Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr Adroddiad Perfformiad ar gyfer Ch2 diwedd mis Medi i'r Bwrdd gan nodi y byddai'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Dyma'r adroddiad cyntaf ers yr adolygiad o Gynllun Busnes 2020/2021, a gymeradwywyd yn derfynol yng nghyfarfod mis Gorffennaf o'r Bwrdd.

15. Nododd y Bwrdd y prif fesurau a'u sgorau cynnydd, fel yr oeddent wedi'u hamlinellu yn y papur. Roedd sylw'n cael ei roi i fater camau dilynol archwilio trwy graffu annibynnol, megis archwiliad UKWAS, a thrwy brosesau herio mewnol, megis ymateb i ddigwyddiadau.

16. Cytunodd y Bwrdd â'r cynnig i fabwysiadu adroddiad eithrio symlach ar gyfer adroddiad Ch3.

**CYTUNWYD: Cytunodd y Bwrdd â'r cynnig i gyflwyno adroddiad eithrio symlach ar gyfer adroddiadau perfformiad Ch3.**

17. Holodd y Bwrdd pa heriau annibynnol a oedd yn bodoli ar gyfer gwybodaeth rheoli perfformiad a gofynnodd am ddiweddariad byr erbyn y cyfarfod nesaf ar y gwiriadau a'r mesurau sydd ar waith. Eglurodd y Prif Weithredwr fod sawl haen o heriau ar gyfer y ffigurau a gynhyrchid, gan gynnwys heriau allanol megis UKWAS, a heriau mewnol gan aelodau'r tîm sy'n cynhyrchu'r ffigurau, y Tîm Perfformiad sy'n cynhyrchu'r adroddiad, a'r Tîm Gweithredol ac Archwilio Mewnol.

**CAM GWEITHREDU: Y Prif Weithredwr i baratoi diweddariad byr ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd ar y gwiriadau a'r mesurau sy'n bodoli er mwyn darparu heriau annibynnol i'r wybodaeth rheoli perfformiad.**

18. Gofynnodd y Bwrdd am ddiweddariad ynglŷn â pharodrwydd CNC i ymateb i'r newidiadau ym myd amaeth ar ôl Brexit a newidiadau deddfwriaethol. Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu gynlluniau a oedd wedi'u cefnogi gan y Tîm Gweithredol, a dywedodd y byddai'r cynigion yn cael eu rhoi gerbron y Bwrdd â mwy o fanylder yn y flwyddyn newydd.

19. Codwyd mater y toriadau a oedd wedi'u cyhoeddi i'r gyllideb amaethyddiaeth a thrafnidiaeth, a gofynnwyd i'r Tîm Gweithredol sut y byddai hyn yn effeithio ar raglenni yn y dyfodol. Cadarnhawyd y byddai sgyrsiau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn ag ymgysylltu. Roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu'n aelod o Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru a chadarnhaodd fod y drafodaeth hon ar yr agenda.

**CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu i gylchredeg neges e-bost a oedd wedi dod i law gan y Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar Adolygiad o Wariant y DU.**

20. Cyflwynodd yr Athro Steve Ormerod yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r fforwm Pysgodfeydd a thynnodd sylw at bapur arbennig o dda a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar broblemau ffosffad afon Gwy. Er hyn, cododd gwestiynau yn ymwneud â'r terfyn amser o bedair awr ar gyfer ymateb i ddigwyddiad. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau y broses a'r ddibyniaeth ar asesiadau cychwynnol i ymateb. Er hyn, roedd yn derbyn y pwynt ehangach a byddai'n gofyn i Bennaeth Gweithrediadau Gogledd-ddwyrain Cymru gyflwyno diweddariad pellach ar y pwnc i'r Bwrdd.

**CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau i drafod gyda Phennaeth Gweithrediadau Gogledd-ddwyrain Cymru a chyflwyno diweddariad pellach i'r Bwrdd ar y terfyn amser o bedair awr ar gyfer ymateb i ddigwyddiad.**

## Eitem 7. Diweddariad ar Adferiad Gwyrdd (llafar)

Sarah Williams, Pennaeth Gweledigaeth 2050 a'r Strategaeth Gorfforaethol

21. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategaeth Gorfforaethol a Datblygu yr eitem. Roedd y Gweinidog wedi croesawu'r adroddiadau a'r casgliadau ac wedi cymeradwyo'r ddau ar gyfer eu cyhoeddi.

22. Roedd yr adroddiad cyntaf ar gynigion yr Adferiad Gwyrdd a'r llall ar y gefnogaeth i'r sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol. Roedd 50 o gynigion blaenoriaeth un, a 48 o gynigion yr oedd angen gwneud rhagor o waith arnynt a'u datblygu. Roedd adnoddau wedi'u hymrwymo ac roeddent yn canolbwyntio ar y cynigion blaenoriaeth un a oedd ag achosion busnes da fel bod modd eu cysylltu â chyfleoedd cyllid sy'n bodoli'n barod.

23. Yn ogystal, roedd 19 o gamau galluogi ehangach yn y Bartneriaeth Cyflawni Adferiad Gwyrdd, nad oeddent yn gamau gweithredu penodol, ond a oedd yn gweithio ar gysylltu pobl a hwyluso gweithredu.

24. Roedd yr ail adroddiad, a oedd yn canolbwyntio ar gefnogi'r trydydd sector amgylcheddol, yn cynnwys argymhellion mewn amrywiaeth eang o feysydd a oedd yn annog cydweithredu ac arallgyfeirio incwm. Roedd CNC wrthi'n mynd trwy'r argymhellion gyda Llywodraeth Cymru a byddai hefyd yn ystyried dod â grŵp o randdeiliaid sector preifat at ei gilydd i archwilio'r materion yn fanylach.

25. Nododd y Bwrdd y rôl bwysig yr oedd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a deddfwriaeth arall wedi'i chwarae er mwyn hwyluso'r gwaith hwn, a thynnodd sylw at hyn fel enghraifft dda o'r ffordd y gall deddfwriaeth gefnogi gweithredu.

## Eitem 8. Cyflwyniad Lle

Martyn Evans, Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru

26. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau yr eitem a nododd mai dyma'r cyflwyniad lle cyntaf ers y Trallwng yn 2019 oherwydd COVID-19.

27. Rhoddodd Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru gyflwyniad ar weithgareddau yn y rhanbarth ers y diweddariad diwethaf i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2019, a rhoddodd drosolwg o'r datblygiadau diweddaraf. Y meysydd a amlinellwyd oedd: ansawdd dŵr, ansawdd aer, rheoli tir ac asedau a gweithio gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Croesawodd y Bwrdd y cyflwyniad a nododd adborth cadarnhaol gan drigolion lleol ar ryngweithiad CNC yn yr ardal. Ymatebodd Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru i nifer o ymholiadau gan aelodau'r Bwrdd ynglŷn â materion cyfredol yn yr ardal.

28. Cafwyd ymholiad ynglŷn â rhan y Gwasanaeth Tân ac Achub mewn gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cael ei ariannu â grant ar diroedd comin lle mae anifeiliaid yn pori, a gofynnwyd a fyddai hyn yn straen ar yr adnoddau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau fod CNC yn sianel i basio arian ymlaen i berchnogion/deiliaid ac y byddai'n rhannu rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r prosiect all-lein.

**CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau i rannu rhagor o wybodaeth gyda Geraint Davies all-lein ynglŷn â gwaith y Gwasanaeth Tân ac Achub/Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cael ei ariannu â grant ar diroedd comin lle mae anifeiliaid yn pori**.

29. Cynigiodd y Bwrdd ei gymorth â materion gwastraff yn ystod COVID a gofynnodd a oedd rhagor y gallem ei wneud o safbwynt rheoleiddio. Roedd rhagor o waith yn cael ei wneud â strategaeth reoleiddio, ac roedd Polisi, Tystiolaeth a Thrwyddedu'n gweithio gyda'r timau Gweithrediadau.

30. Gofynnodd y Bwrdd am ragor o wybodaeth ynglŷn â defnyddio technegau arloesol, technolegau newydd a ffyrdd newydd o weithio sydd wedi helpu yn ystod COVID.

**CAM GWEITHREDU: Pennaeth Gweithrediadau'r De-orllewin i ddarparu nodyn i'r Bwrdd ar dechnegau arloesol, technolegau newydd a ffyrdd newydd o weithio sydd wedi helpu'r timau Gweithrediadau yn ystod COVID.**

## Eitem 9. Sesiwn Holi ac Ateb Ryngweithiol gyda'r Cyhoedd

38. Croesawodd y Cadeirydd aelodau o'r cyhoedd i'r sesiwn Holi ac Ateb.

39. Gofynnwyd y ddau gwestiwn canlynol:

- Gofynnodd Daniel Wills a fyddai swydd y Pennaeth Masnachol yn cael ei chadw ynteu a fyddai'r Cyfarwyddwr newydd yn ymgymryd â'r rôl. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai CNC yn penodi Pennaeth Masnachol newydd, gan fod y swydd yn rhan o'r strwythur presennol.

- Gofynnodd Frank Elsworth a oedd Bwrdd CNC yn ymwybodol o'r canlyniadau i Economi Cymru yn dilyn prosiect Fferm Wynt Pen-y-Cymoedd (PyC), ac a oedd y Bwrdd yn derbyn bod PyC yn drefniant prydles wedi'i negodi gan CNC y byddai'n werth ei fabwysiadu ar bob prosiect ynni adnewyddadwy ar Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol fod CNC yn ymwybodol o'r canlyniadau.

**CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol i ymateb i Frank Elsworth ar ôl y cyfarfod ynglŷn â'r cwestiynau eraill a gyflwynwyd ganddo.**

- Holodd Jack Hanbury ynglŷn â hanes gorfodi gwastraff CNC. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau fod CNC yn gweithio yn unol â'r fframwaith rheoleiddio a bod yr holl ddata gorfodi i'w gweld ar wefan CNC.

- Holodd Jack Hanbury hefyd ynglŷn â'r adnoddau yn y timau gorfodi gwastraff. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu sicrwydd bod CNC yn gweithio ar yr adnoddau yn y timau. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid galw cyfarfod gyda Mr Hanbury i drafod y materion ymhellach.

**CAM GWEITHREDU: Galwad ddwyochrog gyda Jack Hanbury, y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau, a Chadeirydd CNC i drafod ei gwestiynau ynglŷn â gorfodi gwastraff ymhellach**.

- Gofynnodd Gareth Wardell a oedd Bwrdd CNC yn derbyn bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi ei bod yn ofynnol i CNC gydymffurfio â'r gofyniad i ystyried agweddau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd datblygu cynaliadwy. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod CNC yn edrych ar hyn trwy'r Strategaeth Fasnachol a bod llawer o sefydliadau eraill yn wynebu'r un her. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu fod CNC wedi ymrwymo i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Nododd fod gan CNC gyfres o nodau llesiant yn y Cynllun Corfforaethol a'i fod yn cyflawni ei waith yn unol â'r nodau.

- Gofynnodd Gareth Wardell a fyddai CNC yn elwa pe bai swyddogaethau masnachol rheoli Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru, boed er mwyn creu coetir neu er mwyn creu cynlluniau ynni adnewyddadwy, yn cael eu cyfeirio at asiantaeth ar wahân. Ymatebodd y Prif Weithredwr gan ddweud bod CNC yn gweithio mewn cysylltiad agos â Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynlluniau ar gyfer cam nesaf ynni gwynt. Roedd y fframwaith yn darparu sail gadarn ar gyfer sylweddoli gwerth o Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru, a byddai'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol yn parhau i hybu'r Strategaeth Fasnachol yn dilyn ymadawiad y Pennaeth Masnachol.

## Dod â'r Cyfarfod i Ben